# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-12-08)

**Dyddiad: 2 Gorffennaf 2008**
**Amser: 9:03 - 11:07am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Mike German, Dwyrain De Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Claire Morris, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Steve Thomas, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Dr Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Daisy Seabourne, Swyddog Polisi Dysgu Gydol Oes, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mervyn Benford, Y Gymdeithas Ysgolion Bychain
Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn
Ann Keane, Pennaeth Cyfarwyddiaeth: Darparwyr Addysg, Estyn
Arwyn Thomas, Arolygwr Ei Mawrhydi, Estyn

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1:1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mick Bates, ac roedd Mike German yn dirprwyo ar ei ran.

### Eitem 2: Ymchwiliad i ddarparu addysg yng nghefn gwlad Cymru ac ad-drefnu ysgolion gwledig: sesiwn dystiolaeth

### Papur: RDC(3)-12-08 (p1)

### 2.1 Croesawodd y Cadeirydd Steve Thomas, Dr Chris Llewelyn a Daisy Seabourne o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi eu cyflwyniad ysgrifenedig. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.

2.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r clercod ddosbarthu trawsgrifiad o sesiwn dystiolaeth ar y cyfnod sylfaen, a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 22 Mai 2008.

### Eitem 3: Ymchwiliad i ddarparu addysg yng nghefn gwlad Cymru ac ad-drefnu ysgolion gwledig: sesiwn dystiolaeth

### Papur: RDC(3)-12-08 (p2)

### 3.1 Croesawodd y Cadeirydd Mervyn Benford i'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i roi ei gyflwyniad ysgrifenedig. Bu'r Aelodau'n holi'r tyst.

3.2 Cytunodd y tyst i ddarparu rhagor o wybodaeth am brofiadau'r Albanwyr o ad-drefnu ysgolion, ynghyd â gohebiaeth gan Weinidogion y DU, y dyfynnodd ohonynt yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

### Eitem 4: Ymchwiliad i ddarparu addysg yng nghefn gwlad Cymru ac ad-drefnu ysgolion gwledig: sesiwn

### dystiolaeth

### Papur: RDC(3)-12-08 (p3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Bill Maxwell, Ann Keane ac Arwyn Thomas i'r cyfarfod a gwahoddwyd hwy i roi eu cyflwyniad ysgrifenedig. Bu'r Aelodau'n holi'r tystion.